Pa le mae dy hen drugareddau

Caneuon Ffydd: Rhif 202

Pa le mae dy hen drugareddau,
hyfrydwch dy gariad erioed?
Pa le mae yr hen ymweliadau
fu'n tynnu y byd at dy droed?
Na thro dy gynteddau'n waradwydd,
ond maddau galedwch mor fawr;
o breswyl dy ddwyfol sancteiddrwydd
tywynned dy ŵyneb i lawr.

O cofia dy hen addewidion
sy'n ras a gwirionedd i gyd;
mae manna'r addewid yn ddigon
i dorri anghenion y byd.
I Seion rho newydd destunau
i ganu dy fawl yn gytûn,
a dychwel â'th hen drugareddau
er mwyn dy ogoniant dy hun.

DYFED, 1850–1923

MYFYRDOD

Roedd Dyfed y pregethwr, bardd ac emynydd yn llygad-dyst i ryfeddodau blynyddoedd 1904–5 yng Nghymru, ac mewn darlith ar y Diwygiad rhyfeddol hwnnw fe ddechreua trwy gymharu Cymru â gwlad Israel. 'Am Gymru gallwn ei galw yn wlad Canaan Ewrop, yn debyg o ran maint ac o ran ffurf, ac yn arbennig mewn dwyfol ymweliadau. Debyced yw hanes ein cenedl i hanes cenedl Israel. Yr ydym wedi cael ein herlid fel petris y mynyddoedd ac wedi galaru llawer dan orthrwm y gelyn.'

Mae pob ymgais wedi ei wneud i'n diddymu, ond trwy'r cwbl gwêl Dyfed ryw amddiffyn dwyfol drosom sy'n ein cadw yn fyw yng nghanol y cwbl. Cred fod rhagluniaeth ddwyfol yn gofalu amdanom ac iddi ei amlygu ei hun mewn ffordd arbennig yn

Niwygiad 1904. Mae cenedl sydd wedi dal cymaint o anfanteision heb lesgáu, cenedl sydd wedi gwrthod marw ar bob ystanc, ac wedi cadw ei hiaith yn fyw, yn ymddangos fel gwyrth. Y mae'n haeddu byw!

Ni all Dyfed beidio â chymharu'r Diwygiad yma â'r Pentecost, ac un o amodau y 'gymanfa ryfedd' honno, fel y'i galwa, ar ddydd y Pentecost oedd bod pawb yn gytûn yn yr un lle yn gofyn ac yn disgwyl ar i Dduw gyflawni ei addewid a rhoi iddynt yr Ysbryd Glân – 'I Seion rho newydd destunau i ganu dy fawl yn gytûn'.

Gwelodd gynhaeaf mawr o eneidiau yn ystod y Diwygiad hwnnw a gwahaniaeth aruthrol yn cael ei wneud i holl fywyd cymdeithasol y genedl: 'Y mae'r diwygiad hwn wedi rhoi achos crefydd ar ei draed yng Nghymru am oes arall', meddai, ac fe'i cawn yn yr emyn hwn yn edrych yn ôl ac yn hiraethu am ymweliad buan eto o eiddo'r Ysbryd Glân. Yn netholiad ei nai Ap Nathan o'i waith, *Emynau Dyfed* (1924), fe geir pennill arall o flaen y ddau bennill a gynhwysir yn *Caneuon Ffydd* (a'r *Caniedydd* cyn hynny) sy'n gofyn yr un cwestiynau: 'Pa le mae y grasol gawodau a welwyd ar fynydd Dy dŷ?' Ond ceir gwir reswm y gofyn hwn am ymweliad hefyd yn y pennill hwnnw: 'Mae'r ddaear yn llawn o anghenion a'r egin yn marw'n y tir.' Consýrn am eneidiau'r rhai a ddaeth i'r bywyd ac a gyffyrddwyd gan y Diwygiad sydd ganddo wrth iddo sylwi bod y rhai a eginodd yn y cyfnod hwnnw yn disgyn yn ôl mewn cyfnod diweddarach. Gwyddai fod yn rhaid i waith yr Ysbryd barhau yn y tir: 'Ni allwn fyw mewn tân o hyd. Y mae yn ddwyfol gynnes ac yr ydym yn llawenhau yn ei oleuni, ond bydd yn rhaid inni gael gwlith ac awelon ar ôl hyn i fagu egin', meddai eto ar ddiwedd ei ddarlith. Bu Cymru dan law y nef am genedlaethau – 'Pa le mae yr hen ymweliadau?'

GWEDDI

O Dad, fe aeth dy Eglwys yn ein plith mor ffurfiol, difywyd a gwan. Gofynnwn am dy faddeuant fel cenedl am bellhau cymaint oddi wrthyt; mae cynhaeaf o eneidiau eto yn disgwyl amdanat. Dyro inni 'dy hen drugareddau', dy 'hen ymweliadau' er mwyn inni gael eto 'newydd destunau i ganu dy fawl yn gytûn'. Er mwyn dy Fab, ac er mwyn dy ogoniant di dy hun. Amen.